

Llais y Pentref Awst 2012

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 3 Hydref 2012

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol
www.llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Dawnsio Zumba yn y Neuadd Goffa bob nos Fawrth 6.15 – 7.15 y.h.

MOBI tu allan i'r Neuadd Goffa pob nos Fercher o 17.30 tan 19.30

Clwb Bowlio pob nos Iau o 19.30 Neuadd Goffa

Merched Y Wawr trydydd Nos Lun pob mis yn y Neuadd Goffa am 7:30yh

Awst 23 Dydd Iau 7.00 Noson Cwis a Chyri £5.00y pen Tafarn y Rheilffordd

Awst 26 Dydd Sul 8.00 Noson Gwis Tafarn Nantcelyn, Bronwydd

Medi 3 Dydd Llun 8.00 Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol Club Bowlio Neuadd Goffa

Medi 4 Dydd Mawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 11 Dydd Mawrth 8.00 Cymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 12 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd. Cysyllter â'r dafarn 253643

Medi 15 Dydd Sadwrn 12.45 Cerdded Moylegrove /Newport

Medi 20 Dydd Iau 7.00 Noson Cwis a Chyri £5.00y pen Tafarn y Rheilffordd

Medi 23 Dydd Sul 1.45 Neuadd Bronwydd Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru

Medi 26 Dydd Mercher 10.30 – 12.00 Macmillan Bore Coffi Neuadd Goffa

Medi 29 Dydd Sadwrn 7.00 Dawnswyr Llanarthne, Delynores Dr. Elonwy Wright, Twm path, Pryd 2 gwrs, bar, £7.50 Neuadd Goffa

Medi 30 Dydd Sul Noson Gwis Tafarn Nantcelyn, Bronwydd

Hydref 2 Dydd Mawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Hydref 6 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Laugharne

Hydref 10 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd. Cysyllter â'r dafarn ar 01267 253643

Hydref 18 Dydd Iau 7.00 Noson Cwis a Chyri £5.00y pen Tafarn y Rheilffordd

Hydref 28 Dydd Sul 1.45 Neuadd Bronwydd Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru

Hydref 28 Dydd Sul 8.00 Noson Gwis Tafarn Nantcelyn, Bronwydd

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

Cyngor Bro Llanpumsaint

Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad:- Danny Davies, Malcolm Howells, Dylan Jones, Mali Lloyd, Arwel Nicholas, Wyn Thomas, Elfed Davies, Carolyn Smethurst.

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Cynhaliwyd y Cyfarfod blynnyddol ar Orffenaf 24 2012 pryd yr etholwyd y swyddogion canlynnol am 2012/2013:-

Cadeirydd	Arwel Nicholas
Is-Gadeirydd	Bob Jameson
Ysgrifennydd	Derick Lock
Ysgrifennydd cofnodion	Meleri Brown
Cyd- Drysoryddion	Arwel Nicholas a Llew Thomas
Gohebydd y Wasg	Derick Lock

Mae eisiau un neu ddu arall ar y pwylgor ac os oes diddordeb gan unrhyw un i ymuno a ni ac eisiau rhagor o wybodaeth a fydddech mor garedig a chyslltu a'r Cadeirydd ar 281365. Is-Gadeirydd ar 253239 neu yr Ysgrifennydd ar 2153524

Mae'r pwylgor yn cyfarfod unwaith pob 2 fis ar y trydydd nos Fawrth o'r mis yn y Neuadd Goffa am 8.00 yr hwyr. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 18 2012.

Mae'r pwylgor yn trefnu Sioe Ffasiynau drwy garedigrwydd Nanettes o Gydweli yn y Neuadd ar Hydref 26 2012 – manylion pellach i ddilyn.

Nosweithiau Bingo Byddant yn dechrau am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd ar y dyddiadau canlynnol:- Nos WenerHydref 19 2012

Nos WenerTachwedd 16 2012

Nos Iau Rhagfyr 13 2012

Prynu Bricsen. Hyd yn hyn mae'r cyfanswm o 108 wedi eu gwethu.

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo.

Fe fydd Cyfarfod Blynnyddol y Clwb yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar nos Lun Medi 3 2012 yn brydlon am 8 o'r gloch yr hwyr. – aelodau cymerwch sylw.

Os oes unrhyw un a diddoredeb i ymuno a'r Clwb, mae gwahoddiad i chi i fynychu'r cyfarfod, hyd yn oed os nad ydych wedi chwarae erioed o'r blaen.

Cefnogwch Gymdeithas Rieni ac Athrawon yr Ysgol.

Mae'n eithaf syml - os ydych yn siopa ar y We cofrestrwch unwaith gyda

www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta

<<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta>>. Wedyn bob tro

fyddwch yn siopa ar y we ewch i'r Wefan "Your favourites" a bant a chi.

Gellwch arbed arian gyda "easyfundraising" hefyd, oherwydd dewch ar draws gynigion rhatach yno. Felly byddwch yn ein helpi ni ac yn arbed arian yr un pryd. Cewch fwy o fanylion oddiwrth Sarah 253412.

Cymuned Digonol a Chynaliadwy.

Fe gynhalwyd cyfarfod arall gyda'r Cyngor ar Orffenaf 13 2012 i ymchwilio y ffordd ymlaen. Bwriad y cyfarfod oedd i drafod problemau a godwyd gan y gymuned ac hefyd i ddarganfod ffyrdd o'i datrys. Cafwyd ymateb da ac oherwydd hyn fe rannwyd y gynulleidfa i grwpiau bychain i drafod y gwahanol broblemau.

Y prif bryder oedd diffyg rhandiroedd yn y pentref. Awgrymwyd i ddefnyddio yr Hen Or saf Rheilffyrdd ond roedd Paul Thomas o "Zero Carbon Future" a Moishe Merry, Cydlynudd y Prosiect "Awakening Rural Capital wedi edrych i mewn i hyn ac wedi darganfod mae'r Cyngor sydd berchen y iard ac y mae ar brydles tan 2014.

Gan fod y prydleswr ddim yn defnyddio y cyfan efallai y byddai yn bosibl dod i ryw fath o gytundeb.

Awgrymwyd hefyd am yr ardal sydd ar bwys yr afon rhwng y ddwy bont yn y Cae Chwarae. Efallai y byddai modd clirio yr ardal hyn a gofynwyd i Paul a Moishe wneud ymholiadu i weld pwy yw'r perchenogion. Os mae'r cyngor yw'r perchnogion, byddai yn hawsach wedyn i gael cymorth i ariannu'r fenter.

Yn y rhifyn hyn o Lais y Pentref yr ydym wedi amgau arolwg a byddem yn wir ddiolchgar pe byddech yn ei ddychwelyd. Wrth gael eich cymorth fe fydd yn cryfhau ein cais i gael arian ar gyfer y prosiect oddiwrth y cyngor.

Cylch Meithrin Bronwydd

Mae'r Cylch sydd yn rhan o'r Mudiad Meithrin yn ceisio rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i fanteisio ar brofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cylch sydd yn dathlu pedwar deg o flynyddoedd eleni yn cwrdd yn Neuadd Bronwydd pedwar bore'r wythnos (amser Tymor) o Ddydd Mawrth i Ddydd Gwener. Yr oriau agor yw 9.15 y.b i 12.00 y.p. Derbynir plant ddwy flwydd a hanner oed at oed dechrau ysgol gynradd. Pris y sesiwn bore yw £6 ac mae posiblwydd o gael eu hariannu ar ol iddynt cael eu tair oed.

Arweinyddes y Cylch yw Mrs Lynsey Jones, a'r gynorthwywraig yw Mrs Clare Owen. Maent yn strwythuro'r chwarae a'r dysgu yn hwylus i'r plant ac yn cynnig byrbryd o gracers a llaeth yn ystod y bore.

Yn ychwanegol ar fore Ddydd Gwener rhwng 10.00 y.b a 12.00 y.p, mae Cylch Ti a Fi i fabanod a phlant bach, a'u rhieni/gwarchodwyr. Cost y sesiwn yw £2.50, ac mae hyn yn cynnwys byrbryd canol y bore o gracers a llaeth i'r plant, a choffi, te a bisgedi i'r rhieni/gwarchodwyr. Arweinyddes y Ti a Fi yw Miss Michelle Pugh.

Cofion, Y Pwyllgor, Cylch Meithrin Bronwydd.

Dathlu fy mhen-blwydd yn 150

Ie yn wir . Mis Mawrth nesaf mi fydd un o drigolion hynaf yr ardal yn dathlu penblwydd yn 150 oed. I arbed gormod o gur pen i chi mi fydd Ysgol Llanpumsaint yn 150 mlwydd oed ym Mis Marth 2013.

Bydd yn achlysur arbennig iawn i'r ysgol a'r ardal ac mae rhai ohonom ni yn gobeithio gwneud rhywbeth i gofnodi a helpu ddathlu'r digwyddiad .

Rydym wedi dechrau gweithio ar rai syniadau ac os yw'r digwyddiad o ddiddordeb i chi mae yna groeso i chi gysylltu â Arwyn Thomas, Margaret Griffiths neu Llew Thomas a gallwn ddechrau ar y dathliadau.

Côr Llanpumsaint a'r Cylch

Fe fydd Cyngerdd Blynndol y côr yn cael ei gynnal yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyddin ar nos Sadwrn Hydref 20 2012. Eleni, fe fydd y côr o dan arweiniad Gwyn Nicholas yn perfformio " Y Greadigaeth" gan Haydn. Yn cynorthwyo'r côr fydd:- Angharad Morgan, Soprano, Trystan Llyr Griffiths, Tenor a Meilyr Jones, Bariton. Yr organydd fel arfer fydd Allan Fewster gyda Phedwarwd Llinynnol yn cynorthwyo. Fe fydd y perfformiad yn dechrau am 7.30 yr hwyr ac fe fydd unrhyw fanylion pellach yn ymddangos yn y wasg neu ar bosteri. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth.

Awyrennau Isel

Cymru yw Ardal 7 –LFA7 lle mae awyrennau yn hedfan yn isel. Gweler isod ble y gellir cael y dyddiadau pan fyddant yn hedfan yn isel:-

<http://www.mod.uk/DefenceInternet/WhatWeDo/AirSafetyaviation/LowFlying/LowFlyingExcerciseandEvents.htm>

Mae'r Amserlen Ymarfer ar:-

<http://www.mod.uk/DefenceInternet/AboutDefence/CorporatePublications/AirSafety andAviationPublications/MilitaryLowFlying/OperationLowFlyingTimetable.htm>

wedyn clicliwch ar eich mis dewisiedig.

Os am gwyno cysylltwch a 020720186020 – RAF neu

<http://www.raf.mod.uk/crowales/low flying>

Eglwys y Drindod, Pontargothi

Mae'r Eglwys ar agor bob dydd Iau o 2.00y.p. tan 4.00y.p. o fis Mai tan fis Medi
Mae'r Eglwys wedi ei rhestri o dan Adeiladau Eglwysig Gradd 2 a chynlluniwyd hi gan
Bensaer o'r enw Joseph Bucknall (Eglwys y Morwyr yn Abertawe) a oedd yn babydd.

<http://en.wikipedia.org/wiki/BenjaminBucknall>, neu

<http://en.wikipedia.org/wiki/WoodchesterMansion>

Mae tu allan yr Eglwys yn hyfryd ond nid yw hyn ddim i gymharu ar y gampwaith sydd
i weld y tu fewn. Ar y waliau gwelir 25 o banelau sydd wedi eu seilio ar Storiau
Beiblaidd ac ar y rhannau eraill gellir gweld cynlluniau hyniaethol. Mae'r ffresgoedd
wedi cael eu hadfer i safon uchel iawn yn ddiweddar.

Mobi

Mae bws "Mobi" wedi dod yn ôl yn ddiweddar ac yr ydym hyd yn hyn wedi cael dau drip. Mae prosiect "Mobi" yn bwyl ac yn bleserus. Mae'r bws yma bob nos Fercher ac yr ydym yn gwneud rhywbeith gwahanol bob wythnos. Wythnos diwethaf fe drefnwyd trip i'r cinema ac yr oedd yn dda iawn. Mae prosiect "Mobi" yn rhoi cyfle i bawb i gwrrdd a'i gilydd ac hefyd cwrdd a phobl newydd nad ydynt wedi eu gweld yn y pentref o'r blaen. Mae'r Ieuenciad yn mwynhau cyfarfod a'i ffrindiau ac y mae pawb yn cael amser bendigedig fel aelod o'r prosiect yma. Yr ydw i yn cymeradwyo rhagor o Ieuenciad sydd rhwng 11 a 25 blwydd oed i ymuno oherwydd y mae yn brofiad bendigedig. Chloe Young

Ar ddydd Mawrth Awst 28 2012 yr ydym wedi trefnu diwrnod o weithgareddau i grwp Llanpumsaint ac fe fydd yn cael ei gynnal ym Mhentywyn. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys adeiladu raft, dringo wal, gweithgareddau dŵr, gwneud "smoothie" a chŵn twym. Bydd hwn yn rhad i bob aelod o brosiect "Mobi". Ymunwch a ni bob nos Fercher tu allan i'r Neuadd Goffa ar y bws "Mobi"

Yng nghanol mis Medi fe fydd y bws yn dychwelyd ac fe fyddwn yn trafod rhaglen newydd ar gyfer y ieuenciad.

Pwyllgor Lles ag Adloniant

Fe fydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar Fedi 11 2012 am 8.00 yr hwyr. Croeso i bawb.

Barbeciw.

Ar ôl tân ofnadwy gyda barbeciw nwy mae'r Gwasaneth Tân yn atgoffa pawb i gymeryd y camau angenrheidiol pan yn mwynhau barbeciw.

Cyn defnyddio'r barbeciw mae yn bwysig eich bod yn ei wirio yn drwyndl, gwneud yn siwr fod dim byd yn gollwng o'r bibell i'r silindr ac ei bod wedi ei chysylltu yn gywir ac hefyd ddim yn cwrdd an unrhyw beth twym pan mae yn cael ei defnyddio.

Isod gwelir nifer o gynghorion i'w hystyried cyn defnyddio barbeciw nwy.

1. Cymerwch ofal mawr pan yn fyddwch yn cynnau neu diffodd y barbeciw.
2. Pan yn newid silindr sicrhewch fod popeth wedi ei ddiffodd.
3. Sicrahu fod pob cyswllt wedi eu tynhau yn ddiogel.
4. Newidiwch y silindr nwy yn yr awyr agored.
5. Pan fyddwch wedi gorffen coginio mae yn bwysig i ddiffodd y silindr nwy yn gyntaf cyn dim byd arall. Mae hyn yn sicrhau fod y nwy sydd yn weddill wedi cael ei ddefnyddio
6. Storiwch eich silindr tu allan a'i protectio oddiwrth rhew ac haul.
7. Peidiwch a storio eich silindir nwy o dan y grisiau (cwtsh dan staer). Oherwydd os bydd tân fe all ffrwydro ac wrth hyn flocio eich ffordd allan.
8. Os ydych yn gofidio fod yna ollyngfa yn y biben sydd yn cysylltu gyda'r silindr nwy, brwsiwch ddŵr sebonllyd dros y cymalau ac edrychwch yn fanwl am unrhyw fwrlwm. Os hyn, ceisiwch dynhau'r cymal heb ei or-wneud. Os nad ydych yn hapus peidiwch a defnyddio'r barbeciw a cheisiwch gael cyngor arbenigol.

Bore Coffi Macmillan.

Eleni fe fydd Bore Coffi Macmillan yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar Fedi 26 2012 o 10.30 y bore tan ganol dydd. Dewch i gefnogi er mwyn codi arian tuag at yr achos da hyn. Cewch fwynhau cacen a chwpanaid o goffî hefyd.

Mudiad Merched Y Wawr

Mae cangen BroGwili, Llanpumsaint yn cyfarfod trydydd nos lun pob mis am 7:30yh Yn Neuadd Llanpumsaint. Croeso cynnes I aelodau newydd ymuno a ni am fwy o wybodaeth cysylltwch a ysgrifennydd- Nivina Davies 01267 253400.

Cymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint

Dymuna pwylgor Cymdeithas Lleisant Adloniant Llanpumsaint estyn eu diolch ir holl drefniadaethau lleol a ddaeth a stondinau ir Parti yn y Parc ar ddydd Sadwrn Mai 19,

hefyd estynnir diolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad ar y dydd. Bydd elw'r diwrnod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhaliaeth parhaol y parc ar cae chwarae.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol ar y 23ain o Ebrill pan etholwyd swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor fel a ganlyn –

Cadeirydd -- Pamela Jones 253257

Is-gadeirydd -- Michele Girdler 253672

Ysgrifennydd -- Derick Locke 253524

Trysorydd -- Mali Lloyd 253472

Archwilydd -- Kathleen Morris

Aelodau'r Pwyllgor -- Elfed Davies, Gavin Harding, Mathew Jones, Meinir Jones, Sarah Moore, Dafydd Saer, Brian Smethurst, Dorrien Thomas ac Elizabeth Webb.

Cymeradwywyd y cynnig gan y Cyfarfod Blynnyddol i wneud holl aelodau'r Pwyllgor yn Ymddiriedolwyr o'r Gymdeithas, tra byddant yn aelodau o'r pwyllgor. Cytunwyd hefyd i drefnu gyda'r Banc i wneud y Cadeirydd, Ysgrifennydd a'r Trysorydd yn llofnodwyr i'r Cyfrif Cyfredol a chyfrif Clwb y Cant.

Agorwyd y Blwch Awgrymiadau a osodwyd yn siop Penbontbren yn union wedi terfyn y Cyfarfod Blynnyddol. Ymysg yr awgrymiadau daeth y canlynol - ardal i gerdded cwn, ardal i randir, rhagor o seddi, gwarchodfa ac awgrym i baentio'r sied mewn lliwiau llachar. Bydd y syniadau yma yn cael eu hystyried gan y pwyllgor yn y dyfodol. Derbyniwyd sylw fod y fynedfa o'r bont i'r cae mewn cyflwr peryglus. Ond oherwydd i hwn gael ei lanhau a'i baentio ar 31ain o Fawrth penderfynwyd nad oedd angen gweithredu pellach am flwyddyn o leiaf.

Bu yna drefniant glanhau sbwriel yn wythnosol mewn bodolaeth ers Chwefror ac mae hyn wedi sicrhau gwelliant gweledol amlwg. Byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor pe bae pawb yn defnyddio'r biniau lliw melyn osodwyd yn y cae.

Rhaid atgoffa perchnogion cwn nad ydynt i ddefnyddio'r cae chwarae ar hyn o bryd. Yn y dyfodol bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob yn ail fis, a hynny ar yr ail Nos Fawrth. Felly bydd y cyfarfod nesaf yn y Neuadd Goffa ar Nos Fawrth 10fed o Orffennaf am wyth o'r gloch. Gwahoddir pob aelod o'r Pwyllgor i fod yn bresennol.

Os oes rhywun a diddordeb i ymuno a'r **Clwb 100** a fydd eich mor garedig a chysylltu a Mali Lloyd ar 01267 253472. Mae'r Clwb yn rhedeg o fis Ebrill tan fis Mawrth gyda thanysgrafiaid o £12.00 y flwyddyn gyda siawns i ennill arian pob mis yn ystod y flwyddyn heblaw am fis Chwefror.

Cysylltwyr

Is-gadeirydd – Pamela Jones 253257, Ysgrifenyddes – Derick Lock 253524

Neges oddiwrth Offeiriad y Plwyf.

Mae awdur llythyr at yr Hebrewaid yn dweud y dylai pobl Duw orffwys ar y Saboth a pheidio gweithio fel y gwnaeth Ef ei hun. Mae llawer o fobl ar hyn o bryd yn

mwynhau ymlacio a gorffwys ar eu gwyliau. Er hyn y mae'n debyg fod ein cymdeithas yn mynd yn fwy prysur o ddydd i ddydd gan fod y siopiau ar agor ar y Sul ac hefyd mae llawer o chwareuon yn cael eu cynnal ar y Saboth ac wrth hyn nid oes yn aml gan deuluoedd ddydd i orffwys ac ymlacio. Mewn byd delfrydol mae Duw eisiau i bawb gael un diwrnod yr wythnos i orffwys sef y Saboth ond ei gynllun mwyaf yw i ni orffwys gyda fe. Mae hyn yn meddwl am beidio ymdrechu i gael iachawdwriaeth. Fe gewn ein hachub nid wrth ein hymdreichion ni ond wrth gredu a ymddiried yn Iesu Grist, yn ei farwolaeth am ein pechodau ac am ei atgyfodiad oddiwrth y meirw.

Dros yr wythnosau nesaf fy ngwedi yw ein bod yn ymwybodol o allu achubiaeth Duw a'i gariad anferthol tuag atom - y cariad a aeth ag Ef i'r groes drosom ni – y cariad hefyd sydd yn ein croesawu tuag ato. Dduw bendithia chi, Peter

Eglwys Llanpumsaint

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Dydd Sul: 10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg)

2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg

Dydd Mawrth 1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Penuel

Dydd Iau 2.00pm Cwrdd Gweddi

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Capel Bethel

Am fanylion pellach cysylltwch â'r ysgrifenyddes sef Mrs Mali Lloyd 253472

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau o fis Mehefin tan fis ddiwedd mis Medi:-

Mehefin 24 2012 Gwasanaeth am 10.30 y bore Parch John Esau

Gorffenaf 8 2012 Cymundeb am 4.00 o'r gloch Parch Huw George

Gorffenaf 29 2012 Cymundeb am 3.00 o'r gloch Parch Desmond Davies

Awst 2012 Dim Oedfaon

Medi 2 2012 Cymundeb am 3.00 o'r gloch Parch Goronwy Wynne

Medi 23 2012 Manylion pellach i ddilyn

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Mr Danny Davies Trysorydd ar 01267 253418 neu Mr Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Parciwch eich ceir ar y sgwar. Os ydych yn bwriadu mynd cysylltwch a Carolyn ar 01267 253308.

MOBI tu allan i'r Neuadd Goffa pob nos Fercher o 17.30 tan 19.30

Os am ragor o wybodaerth cysylltwch a Carys ar 01267 2121551

Twydd y Pentref gan Tywyddgall. Gohebydd y pentref.

Fuodd dim son am wres tanbaid Mis Mehefin, a daeth dim gwres o werth yn ystod Gorffennaf ychwaith, tân siafins yn unig yn ystod wythnos y Sioe Fawr ac yna nôl at y glaw. Methodd llawer ffarmwr fynd i'r Wyl Fawr eleni, oherwydd dyna'r unig wythnos hyd at yma, ddaeth a 4 diwrnod sych. Bu offer y gwair yn weithgar tu hwnt, yn ceisio achub gwair a silwair rhag y dilyw, ond haf blin yw hi wedi bod i'r ffermwyr llaeth sydd wedi gorfod derbyn toriad o 4 ceiniog y litre ar bris y llaeth, yn ogystal a thywydd blin. Mae llawer buwch odro wedi bod nôl o dan dô, yn bwyta silwair Mis Mai ac nid allan yn pori'r dolydd.....

Ddaeth dim newid yn y twydd ar ôl diwrnod Sain Swiddyn (Gorff 22ain), does dim son eto am ddeugain diwrnod o heulwen, er mae diwrnod braf oedd y Sul hwnnw. Fydd dim angen y Factor 25 am gyfnod eto!!.. Nid yw diarhebion a rhigymau y twydd mor ddibynadwy mwyach, er enghraifft; Pan ddaw'r hafddydd, awn i'r meysydd; casglwn flodau teg eu lliw,gwnawn bosiau o bob rhyw...ar wahan i'r rheiny sy'n son am wlaw; Morus y gwynt ac Ifan y glaw dafloedd fy nghap I ganol y baw. Neu; Mae'n bwrw glaw yn sobor iawn,wel dyma bnawn anghynnes; 'mochel dan fy ambarel a cherdded fel brenhines. Gellir arall eirio'r bennill olaf i 'wel dyma fis anghynnes'! Efallai mae ar yr Olympics mae'r bai, gyda'r elfennau ar eu gorau yn ceisio diffodd fflam y ffagl!

Plismona Bro

Dyma eich Swyddogion Bro lleol –

Inspector	Steve Lee
PS 943	Mark McSweeney
PC 711	Gareth Thomas
PCSO8046	Martin Dickenson.

Gallwch gysylltu â nhw trwy ffonio rhif 101di-frys yr Heddlu neu trwy'r e-bost CarmarthenTownNPT@dyfed-powys.pnn.police.uk

Blwyddyn dyngedfennol - 1922

Sylwodd neb ryw lawer pan sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru yn 1922 yn Llanuwchllyn, a thebyg iawn wyddai bron neb yn lleol pan, yn yr un flwyddyn, cychwynnodd y BBC darlledu rhaglenni radio o Lundain. Ond o fewn degawd tynged y ddau fu iddynt ddylanwadu'n gynyddol ar fywydau trigolion Llanpumsaint, ac yn y pendraw greu chwyldro cymdeithasol drwy'r holl wlad.

Yr Urdd

Ers cyfnod “Brad y Llyfrau Gleision” yn 1846 dedfrydwyd plant ysgolion Cymru i iaith a bwydlen addysg holol estron iddynt. Gwaharddwyd yr unig iaith a wyddent o gyffiniau'r ysgol am ddegawdau. Mae yna le i gredu fod Llanpumsaint wedi dianc o eithafion y “Welsh Not”, ond bu'r niwed seicolegol yn oesol gyda'r diwylliant Cymreig yn cael ei anwybyddu gan “Alfred and the cakes” a “Rule Britannia”. Sylweddolodd Syr Ifan ap Owen Edwards hyn oll, a dyna fu ei gymhelliad i sefydlu Urdd Gobaith Cymru gyda'r nod i amddiffyn a hyrwyddo'r iaith a'r ffordd Gymreig o fyw.

Chwyddodd yraelodaeth yn gyflym, o dair mil yn 1923 i bum mil erbyn 1927. O edrych ar gofnodion ysgolion gwelir mwy a mwy o elfennau Cymreig yn treiddio i'r gwensi. Yn bendant bu agwedd prifathrawon unigol yn allweddol ac yma yn Llanpumsaint buom yn ffodus fod Cymro go iawn wrth y llyw, er bod tymer Jac Johns yn fyr weithiau. Ef fu'n bennaf gyfrifol am yr orymdaith fawr drwy'r holl bentref yn 1928 i ddathlu dydd Hywel Dda, gyda Band Jazz, baneri lliwgar a chyngerdd ag areithio. Dathlu Cymreictod! Ar Fawrth y cyntaf y flwyddyn wedyn derbyniodd y plant wledd annisgwyl - diwrnod cyfan o wersi drwy'r Gymraeg heb air o Saesneg. Gosodwyd cysail holl bwysig a rhaid diolch am hynny i ddylanwad cynyddol yr Urdd.

Yn fuan sefydlwyd y traddodiad o wersylla, yn Llanuwchllyn i ddechrau ac yna i Langrannog. Pan aeth Mali Post yno mewn criw bychan yng nghar Mr. Johns, er i'r cyfleusterau fod yn gyntefig, yr oedd yn cychwyn traddodiad sydd wedi para hyd heddiw i'r plant lleol. Elfen hollbwysig arall o waith yr Urdd fu sefydlu'r traddodiad eisteddfodol yn yr ysgolion. Bu Elfyn a Defi Rose Cottage yn aelodau o'r Band a bu eraill yn adrodd a chanu. Achlysur arbennig oedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerfyrddin yn 1935, meddyliwch, yr oedd y pafiliwn mawr yn y Parc yn dal 12,000. Dyna brofiad i blant y wlad! Pan gyrhaeddodd y Ficer newydd Emlyn Lewis a'i wraig a Decima Morgan ar derfyn yr Ail Ryfel byd, gwnaethant ddatblygu cangen o'r Urdd ar dir oedd eisoes yn ffrwythlon. Arweiniodd Decima gôr merched i ganu yn Llundain a'r Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen, a llwyfannwyd “Y Blodyn Glas” led y wlad, ynghyd a nifer o ddramâu gan y bechgyn. Aeth nifer ohonynt ymlaen i serenni yn “Adar y Llan”. Erys dylanwad y mudiad hyd heddiw wrth i bawb lawenhau o weld Parti Unsain yr ysgol leol yn brwydro ei ffordd drwyddo i'r Genedlaethol yng Nghaernarfon eleni. Ac mor wahanol yw'r naws ieithyddol erbyn hyn, diolch i Syr Owen yn bennaf.

Y Gorfforaeth Ddarlledi Brydeinig (B.B.C.)

Ar 14eg o Dachwedd 1922, ‘doedd yna'r un set radio ar gael yn lleol, felly chlywodd neb yn Llanpumsaint y darllediad cyntaf oll yna gan y BBC o Lundain. A phrin fod neb wedi clywed darllediad cynta'r Brenin Siôr y Pumed na'r sylwebaeth arbrofol hynny o gêm rygbi Lloegr erbyn Cymro o faes Twicenham ychydig flynyddoedd wedyn. Syr John Reith, y Sgotyn awdurdodol hwnnw oedd Pennaeth cyntaf y BBC. Dan ei arweiniad datblygodd y Gorfforaeth i fod yn gyfrwng addysgiadol ac yn was ufudd i'r wladwriaeth. Erys rhai atgofion lleol o'r triddegau, gydag Elfyn Lewis a rhyw frith gof o glywed darllediad “Armistice” ar set radio London House (Geryllan). Tyrrodd rhai o wrandawyr y setiau radio cynta' i'r Swyddfa

Bost a Phantycelyn. Mae nifer mwy yn dwyn i gof holl gynnwrf Edward yn ildio'r frenhiniaeth i'w frawd Siôr y Chweched a holl bwysigrwydd darlledi'r coroni. Rhuthrodd tyrafa i orsaf Llanpumsaint i gael cipolwg o wynebau'r brenin a'r Frenhines, ond ddaeth neb i ffenest y trêb holl bwysig. Efallai eu bod yn paratoi i orffwys dros nos dan y twnnel ger Cwmgreigiau.

. Cynyddodd yr awch am newyddion pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd allan, a daeth y setiau Marconi i hawlio lle anrhodeddus ar sawl seld mewn cegin. Mae gennyf innau frith gof o gael fy siarsio'n fod yn holol dawel tra'r oedd y dyn bach o fewn y set yn ynganu llawer o eiriau estron, gyda "War effort ...Western Front.... Rommel a ..Salvage" yn eu mysg. Ambell dro byddai'r teclyn yn tewi, y batri'n fflat. Yna rhaid oedd tywys y batri gwlyb heb sarni'r hylif peryglus (yr asid) i'r ffatri yn y pentref i'w "charge". Mae Magwen McNally yn cofio taw gorchwyl ei hewythr Joshua Owen Jones oedd hyn yng Ngwili Mills. Profiad holol estron oedd hyn i Defi Rose Cottage, brodor o Benygroes ger Rhydaman, 'roedd trydan ganddynt fanna; ond ni welwyd trydan yn Llanpumsaint nes cychwyn y chwedegau. Rhaid i ni ddiolch i'r hen Hitler am un peth beth bynnag. Adleoliwyd pencadlys y B.B.C. o Lundain i ddarlledu o Fangor adeg y Blits. Dechreuwyd darlledi raglenni ysgafn am y tro cyntaf i godi calon y boblogaeth, a daeth Tommy Handley a'r rhaglen "It's That Man Again" yn hynod boblogaidd yng ngheginau fferm yr ardal. Wedyn llifodd llais acen gogledd Lloegr Wilfred Pickles yn "Have A Go!" i'n cartrefi, gyda ni blant yn ei ddynwared "How much money on 'table Mabel?'" Draw ym Mangor yn clywed hyn oll oedd athrylith o gynhyrchydd Sam Jones, ac fe wyddai Sam fod yna lwythi o dalent Gymreig ar gael. Felly ganed Noson Lawen i'n swyno yn ein hiaith ein hunain am y tro cynta'. Buan iawn daeth *Triawd y Coleg* a'u caneuon hwylus ysgafn *Hen feic peniffardding fy nhaid a Thriawd y Buarth* (*Mw mw - me me - cwac cwac*) mor boblogaidd ac emynau capel. Cyfarwyddodd clustiau Shir Gar ag acen unigryw Caernarfon wrth wrando ar Y Co' bach, Charles Williams. Sylweddolodd neb bryd hynny y byddai'r Noson Lawen yn parhau i fod yn ffefryn teledu dros 70 deg mlynedd yn ddiweddarach

Treiddiodd y radio i bob ystafell o'r ty bron, ac i'r car tu allan. Yna daeth y teledu a'r holl declynnau eraill i ddilyn.. Aeth rywbeth ar goll? Wel do! Ers canrifoedd hyd 1920au, casglai'r teulu fin nos o gylch golau'r tan mawn; ac wrth i'r gwragedd wau a'r dynion ysmigu llifai'r hen straeon a'r chwedlau oesol o gylch y pentan. Yno clywyd cof cenedl yn trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth gydag awch ac amrywiaeth lleol. Yn raddol gwnaeth y radio, teledu ac erbyn hyn yr Ipad ddileu'r traddodiad a'r amrywiaeth. Heddiw, o Lanpumsaint i Landudno ac o Ffynnonhenri i Fulham, yr un yw'r pynciau trafod gan mwyaf bob dydd.. Collwyd llawer wrth i'r degawdau ruthro heibio, ond diolch i'r Urdd a'r radio mae'r Noson Lawen a'n hysgol Gymreig, yma o hyd. *Arwyn 2012*

Village Voice August 2012

Copy Date for next Edition 3rd October 2012

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk

What's On in the Village in the next few months – put these dates in your diary

Every Tuesday Zumba 6.15 – 7.15 Memorial Hall

Every Wednesday Mobi 5.30 – 7.30 Outside Memorial Hall

Every Thursday Bowls Club 7.30 Memorial Hall

Third Monday each month Merched yr Wawr Memorial Hall

August 23 Thursday 7.00 Curry and Quiz, Railway Inn £5 per head

August 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Bronwydd

September 3 Annual General Meeting Llanpumsaint and Nebo Bowls Club Memorial Hall

September 4 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Meeting Memorial Hall

September 11 Tuesday 8.00 Welfare and Recreation Committee Meeting Memorial Hall

September 12 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn - to book phone 253643

September 15 Saturday 12.45 Walk Moylegrove/Newport

September 20 Thursday 7.00 Curry and Quiz, Railway Inn £5 per head

September 23 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

September 26 Wednesday 10.30 – 12.00 Macmillan Coffee Morning Memorial Hall

September 29 Saturday 7.00 Welsh Night with Dawnswyr Llanarthne, Harpist Dr. Elonwy Wright, Twm path, 2 course meal, bar, at Memorial Hall. Tickets £7.50

September 30 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Bronwydd

October 2 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

October 5 Friday 8.00 Church Harvest Supper Memorial Hall

October 6 Saturday 2.00 Walk in Laugharne

October 10 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn - to book phone 253643

October 18 Thursday 7.00 Curry and Quiz, Railway Inn £5 per head

October 19 Friday 7.30 Bingo Memorial Hall

October 26 Friday fashion Show, Nanettes of Kidwelly – details in next Village Voice

October 28 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

October 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Bronwydd

November 16 Friday 7.30 Bingo Memorial Hall

December 13 Thursday 7.30 Bingo Memorial Hall

*Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365*

Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall

The Annual General meeting was held on 24th July, when the following were appointed as officers for 2012/2013

Chair	Arwel Nicholas
Vice-chair	Bob Jameson
Secretary	Derick Lock
Meetings/minute secretary	Meleri Brown
Joint Treasurers	Arwel Nicholas/Llew Thomas
Press Officer	Derick Lock

The committee do have one or two vacancies and anyone interested in joining us should contact our Chair, Arwel Nicholas 281365, Vice-chair Bob Jameson 253239, or Derick Lock 253524 for further information.

The committee will in future meet bi-monthly on the third Tuesday of the month and the next meeting will be held in the Memorial Hall on Tuesday 18th September at 8.00pm.

The Committee is arranging another Fashion Show courtesy of Nanettes of Kidwelly on Friday 26th October – details will appear in the next issue of Village Voice.

Bingo Nights, all commencing at 7.30pm will be held in the Hall on Friday 19th October, Friday 16th November, and Thursday 13th December.

Buy a Brick campaign – a total of 108 bricks have now been sold.

Llanpumsaint Community Council

The Community Council usually meets on the first Tuesday of each month (*Except December and August*) at the Memorial Hall 8.00pm - all are welcome.

Our new Clerk is Phillip Jones, and he can be contacted on 01267 253512, or email philkto@yahoo.co.uk.

Community Councillors are Danny Davies, Malcolm Howells, Dylan Jones, Mali Lloyd, Arwel Nicholas, Wyn Thomas, Elfed Davies and Carolyn Smethurst.

Council minutes will be available on the village website www.llanpumsaint.org.uk

Welsh Dance and Harp Music Evening

Llanpumsaint Community Information Exchange is really excited to be putting on the first of a series of events celebrating Welsh Culture and Language – on Saturday 29th September we will have an evening of Welsh Dance and Harp music, with a two course supper and licensed bar, starting at 7.00pm.

Dawnswyr Llanarthne dance at various local events including the National Botanic Garden of Wales and Aberglasney. They are also members of the festival group “Dawnswyr Tipyn o Bopeth” that travels much further afield promoting our Welsh culture abroad.

Harpist, Dr. Elionwy Wright, originally from Pontyberem, has been playing the harp since childhood. Apart from the Pedal, Celtic, and Bray Harp, Elionwy is also renowned for her playing of the traditional Welsh Triple Harp. Together with professional Triple Harpist from Wales, Robin Huw Bowen, they have played together for HRH Prince Charles. Elionwy is a long term member of the Clasarch Society and was honoured at being asked to tutor at the famous Edinburgh Harp Festival. The evening will conclude with a Twmpath.

Tickets will be £7.50 each – and are available from Carolyn Smethurst 253308, Sandy Mather 253547, and Ann Pettit 01559 389044.

Welfare and Recreation Committee - The 100 Club draw winners

June	£20	No 46	Eirian Powell
	£10	No 86	Neville Griffiths
	£5	No 7	D. Evans
	£5	No 17	Phyllis John

July	£20	No 92	Sallie Webb
	£10	No 56	Mai Williams
	£5	No 40	Bryn Jones
	£5	No 97	Ryan & Jane Prince

The 100 Club runs from April to March and the subscription is £12 per year with a monthly draw for cash prizes, excluding February. Proceeds to the Welfare Committee for the maintenance of the field.

